## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd: Cyfarfod hybrid

## Pobl a lleoedd ffydd: A yw Cymru'n gwneud digon i hyrwyddo, diogelu a dathlu ei threftadaeth ffydd?

## Dydd Mercher 8 Tachwedd rhwng 12.00 a 13.00

Ystafelloedd Cynadledda C a D, Tŷ Hywel ac ar Teams

Yn bresennol ar-lein:

1. Ainsley Griffiths, Yr Eglwys yng Nghymru
2. Bonnie Willilams, Cyfarwyddwr, Cyfiawnder Tai Cymru
3. Christine Williams
4. Christine Abbas, y gymuned Bahá'í
5. David Brownnutt
6. Donna Graves, Cynghorydd Cyswllt ar gyfer AddGref/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG/CYS, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
7. Eddie Tulasiewicz, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi
8. Elliott Vanstone, Cynghorydd Cenhadaeth, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr
9. Gareth Simpson, Swyddog Cymorth Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi
10. Libby Jones, CYSAG, Cynghorydd Addysg Grefyddol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
11. Molly Conrad, Swyddog Partneriaethau a Materion Cyhoeddus, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr
12. Naoise Grenham, Dadansoddwr Polisi ac Ymchwil, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr
13. Nathan Abrams (cyflwynydd)
14. Owen Collins, Rheolwr Datblygu yn Archesgobaeth Gatholig Caerdydd
15. Siva Sivapalan, y gymuned Hindŵaidd
16. Sophie Andreae, Is-Gadeirydd Pwyllgor Treftadaeth yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr
17. Tara Moorcroft, staff cymorth - Darren Miller AS
18. Therese Warwick, Cydlynydd Cyfranogiad Cymunedol, CAFOD
19. Tom Perry, staff cymorth - Tom Giffard AS
20. Wali Mohammad

Yn bresennol yn bersonol:

1. Albert Lalhmangaiha, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

2. Carys Moseley, Swyddog Cyswllt Adran yr Eglwys a Chymdeithas, Eglwys Bresbyteraidd Cymru
3. Christine Moore, Addoldai Cymru (cyflwynydd)
4. Christopher Catling, Ysgrifennydd (Prif Swyddog Gweithredol), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
5. Colin Harris, Cardiff Watch
6. Daniel Starkey, intern ar gyfer Darren Millar AS
7. Darren Millar AS (cadeirydd)
8. Jim Stewart (cofnodydd)
9. Kate McColgan, Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
10. Klara Ferreira, Cynghrair Efengylaidd Cymru
11. Lee Gonzalez, staff cymorth - Joel James AS
12. Mark Isherwood AS
13. Mavis Harris, Cardiff Watch
14. Nathan Sadler, Swyddog Polisi Cyhoeddus, Cynghrair Efengylaidd Cymru
15. Neil Sumner, ymddiriedolwr Addoldai Cymru
16. Perminder Dillon, Arweinydd Prosiect, Prosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru
17. Peter Harrison, Swyddog Ymgysylltu, Y Fyddin Brydeinig
18. Sai Giridhar, Prosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru
19. Scott Lloyd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
20. Siôn Brynach, Prif Weithredwr, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
21. Stanley Soffa, y gymuned Iddewig
22. Stephen Adams, tîm caplaniaeth y Senedd, Yr Eglwys yng Nghymru
23. Tim Rowlands, Pennaeth Cynghrair Efengylaidd Cymru

Ymddiheuriadau:

1. Andrew Misell, Cyfarwyddwr Newid, Alcohol Change UK
2. Gethin Rhys, Swyddog Polisi, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
3. Llŷr Gruffydd AS

1. Agorodd Darren y cyfarfod a gofynnodd i’r rhai a oedd yn bresennol arsylwi munud o dawelwch i fyfyrio ar y digwyddiadau yn Gaza ac Israel a’r cymunedau Iddewig a Mwslimaidd yr effeithir arnynt.

2. Cyflwynodd Darren Christine Moore o Addoldai Cymru. Rhoddodd Christine gyflwyniad ar waith Addoldai Cymru a oedd yn cynnwys:

Cefndir yr Ymddiriedolaeth a ymgorfforwyd ym 1999.

Mae ei ffocws ar adeiladau crefyddol nad ydynt yn adeiladau Anglicanaidd yng Nghymru – adeiladau Cristnogol anghydffurfiol ond hefyd adeiladau crefyddau eraill. Ar hyn o bryd, mae wedi caffael 11 o adeiladau eglwysig.

Un o'r ffactorau llwyddiant allweddol o ran galluogi'r adeiladau i gael eu defnyddio gan y gymuned yw cael grantiau cyfalaf

Crybwyllir Addoldai Cymru yng Nghynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru. Nodir Addoldai Cymru fel y sefydliad sy'n 'drydedd ffordd' i adeiladau crefyddol - y ffordd gyntaf yw i'r adeiladau aros ar agor, yr ail ffordd yw eu cau a'u haddasu at ddibenion gwahanol; y drydedd ffordd yw eu bod yn cael eu cadw ar agor a'u defnyddio gan gymunedau ac adrodd hanesion y capeli a'r cymunedau hynny.

3. Yna, cyflwynodd Darren Nathan Abrams, sy'n hyrwyddo hanes Iddewon yn y Gogledd

Daeth Nathan i Fangor yn 2006 ac mae'n canolbwyntio ar hanes Iddewon yn y Gogledd. Mae wedi creu mapiau cerdded hunan-dywys o Fangor, Llandudno ac Ynys Môn, ac arddangosfeydd ym Mangor, Llandudno a'r Senedd yng Nghaerdydd. Mae'n gobeithio gwneud yr un fath ar gyfer Bae Colwyn a Wrecsam. Ei nod yw cipio, digideiddio a rhoi cyhoeddusrwydd i hanes Iddewon yn y Gogledd.

4. Yna, cadeiriodd Darren drafodaeth eang ar dreftadaeth ffydd Cymru.

Gofynnodd Darren i Christine Moore (CM) am y rhestr o 150 o adeiladau yr oedd Addoldai Cymru wedi'i llunio i weithredu fel y brif restr

(i) A oes unrhyw adeiladau o grefyddau eraill?
(ii) Beth yw'r meini prawf ar gyfer bod ar y rhestr honno?

Atebodd CM eu bod yn gapeli anghydffurfiol gan mai dyna'r rhai sydd wedi cysylltu ag Addoldai Cymru. Dywedodd hefyd nad yw cyfansoddiad Addoldai Cymru yn caniatáu iddynt gaffael eglwysi Anglicanaidd. Cysylltwyd ag Addoldai Cymru ynghylch Eglwys Gatholig Rufeinig ar Ynys Môn rai blynyddoedd yn ôl, ond dyna'r unig achlysur i hynny ddigwydd.

Mae angen i Addoldai Cymru fod yn ddetholus ac mae'r meini prawf yn cynnwys bod yn adeilad rhestredig gradd 2 (seren) ond heb fod mewn perchnogaeth breifat. Nid yw rhai o'r adeiladu ar y rhestr yn rhestredig ond, serch hynny, fe'u hystyrir yn enghreifftiau pwysig o'r math hwnnw o adeilad. Mae'r rhestr yn darparu fframwaith ar gyfer penderfynu a ddylent geisio caffael rhai adeiladau crefyddol, ond nid yw'n rhestr ddiffiniol.

Dywedodd Tim Rowlands, Pennaeth y Gynghrair Efengylaidd yng Nghymru, ymysg yr eglwysi efengylaidd mwy newydd, fod ffocws ar blannu eglwysi a bod llawer ohonynt angen adeilad ac yn chwilio am adeilad. Er gwaethaf yr hyn a ddywedodd Christine am eglwysi efengylaidd sy'n tyfu eisiau adeiladau newydd, modern, mae Tim yn teimlo bod yna duedd hefyd lle mae

eglwysi efengylaidd eisiau ailddefnyddio adeiladau eglwysig hŷn a bod awydd gwirioneddol i ymgysylltu â threftadaeth.

Gofynnodd Tim a oedd unrhyw beth ar waith sy'n cysylltu'r adeiladau hŷn â phlanwyr eglwysi?

Atebodd CM nad oedd unrhyw beth o’r fath ar waith, hyd y gwyddai, ond soniodd am eglwys Liberty yn Abertawe fel enghraifft.

Canmolodd Stanley Soffa o gymuned Iddewig y De Nathan Abrams am y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud. Soniodd Stanley am y Sefydliad Treftadaeth Iddewig a Chymdeithas Hanes Iddewig De Cymru yr oedd yn werth ymgysylltu â nhw. O safbwynt Iddewon Cymru, teimlai Stanley nad oedd Cymru'n gwneud digon a soniodd fod cymunedau Iddewig Cymru yn dyddio'n ôl i 1761 yn Abertawe a 1841 yng Nghaerdydd.

Gofynnodd Carys Mosely o’r Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru a oedd Addoldai Cymru yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag enwadau Cristnogol i archwilio credoau a diwinyddiaeth yr adeiladau? Teimlai Carys nad ydym yn aml yn ymwybodol o'r hyn a gredwyd ond bod gwahaniaethau cynnil rhwng enwadau. Mae Carys yn cydnabod y gallai hyn gael ei weld fel baich ychwanegol ond, iddi hi, ffydd pobl oedd yn bwysig ac felly roedd yn werth ei deall.

Atebodd CM fod Addoldai Cymru yn sefydliad treftadaeth yn hytrach nag un ffydd, a’i fod hefyd yn fach iawn. Ar y wefan, fodd bynnag, maent yn ceisio adrodd hanes gwahanol enwadau.

Dywedodd Christopher Catling, Ysgrifennydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, fod gan eu llyfrgell yn Aberystwyth dair silff o weithiau diwinyddol, ond dim byd ar bensaernïaeth a hanes. Mae’r Comisiwn Brenhinol yn ceisio cynhyrchu darlun cyffredinol o anghydffurfiaeth yng Nghymru sy’n gwbl greiddiol i hunaniaeth Gymreig

Soniodd Nathan Abrams ei fod yn mynd ati yn y Gogledd i geisio cipio’r profiad bywyd yn hytrach na chanolbwyntio ar adeiladau: felly mae arteffactau a allai fod gan bobl yn eu tŷ – dogfennau, cofnodion, pethau’n ymwneud â busnesau – o ddiddordeb. Mae'r ffocws ar y ffydd a’r cymunedau ethnig o amgylch yr adeiladau hynny. Dywedodd Nathan y gallai ei gyfeiriad e-bost gael ei rannu gyda’r rhai a oedd yn bresennol.

Rhannodd Perminder Dillon, o Brosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru y Comisiwn Brenhinol, ei gwaith. Mae’r ffocws ar hanes llafar ond mae’n cynnwys mapio a chofnodi adeiladau sydd o bwysigrwydd crefyddol a diwylliannol, gyda rhai o’r adeiladau’n cael eu hetifeddu o addoldai crefyddol eraill. Mae ei phrosiect hefyd yn ymddiddori yn y bobl y tu ôl i’r adeiladau, a rhoddodd Perminder yr enghraifft o Asiaid Uganda a gafodd eu hel o’r wlad honno ym 1972 ac a ymgartrefodd yng Nghymru. Mae rhan o Brosiect Treftadaeth De Asia yn ymwneud ag olrhain y bobl hynny a sut y gwnaethant gyfrannu at fywyd Cymru a newid y dirwedd wrth

greu adeiladau o bwysigrwydd crefyddol a diwylliannol. Enghraifft arall yw Sikhiaid Afghanistan, y brwydrau iddynt eu hwynebu ar eu taith a sut y gwnaethant Gymru yn gartref iddynt. Mae'n brosiect aml-haenog iawn.

Dywedodd Darren mai ychydig iawn mae Aelodau’r Senedd yn ei glywed am waith y Comisiwn Brenhinol, felly mae angen i’w waith gael ei hyrwyddo iddynt.

Dywedodd Christopher Catling fod y Comisiwn Brenhinol wrthi’n datblygu cynllun gweithredu newydd ac y byddai’n dda rhoi’r syniadau ar brawf gydag aelodau’r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd i weld a ydynt yn mynd i’r afael â’r materion.

Ychwanegodd Darren y byddai’r Grŵp yn hapus iawn i gymryd rhan yn y gwaith hwnnw a chael rhywfaint o fewnbwn i sicrhau nad oes bylchau. Yn aml, mae diddordeb mewn adeiladau, er enghraifft, ond nid dyma’r unig ran o dreftadaeth ffydd: mae yna hefyd lwybrau pererinion a llwybrau ffydd, gan gynnwys llwybrau nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Mae Nathan wrthi ar hyn o bryd yn datblygu llwybrau o'r fath o amgylch y ffydd Iddewig yn y Gogledd, er enghraifft. Mae Christine Abbas hefyd wedi dweud bod lleoedd yn y De sy'n bwysig i'r gymuned Bahá'í ond nad oes unrhyw dreialon hyd yma i'w cysylltu.

Gofynnodd Darren sut mae’r Comisiwn Brenhinol yn ymgysylltu â grwpiau ffydd ac enwadau wrth lunio eu cynlluniau.

Ymatebodd Christopher Catling fod Fforwm Addoldai Hanesyddol yma yng Nghymru sydd â thua 50 o aelodau o bob enwad ac o grefyddau eraill heblaw Cristnogaeth. Mae cynllun gweithredu a luniwyd i rannu arfer dda. Hanfod y Fforwm yw cadw addoldai mewn defnydd cymunedol ac mae’n annog dylanwadwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gymryd ysbrydoliaeth o'r syniadau y mae aelodau'n eu cyflwyno i'r fforwm. Mae nifer o eglwysi a chapeli, er enghraifft, sy’n cael eu defnyddio fel llety dros nos gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi ac Ymddiriedolaeth Pererindod Prydain.

Soniodd Darren fod pererindod fer ar droed yn cael ei threfnu gan Gynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr, ar 14 Mawrth 2024 (dyddiad dros dro), y mae croeso i unrhyw aelod o’r Grŵp Trawsbleidiol ei mynychu. Bydd Elliott Vanstone yn anfon gwahoddiadau yn fuan.

Dywedodd Owen Collins o Archesgobaeth Gatholig Caerdydd fod mwy o arian wedi bod ar gael yn hanesyddol ar gyfer addoldai ac atgyweiriadau cyfalaf yn Lloegr nag yng Nghymru, er enghraifft, y Gronfa Adferiad Diwylliannol – ffrwd at ariannu atgyweiriadau cyfalaf yn uniongyrchol, ond a wnaed mewn ffordd ychydig yn wahanol yng Nghymru.

Dywedodd Eddie Tulasiewicz o Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi fod ganddynt brosiect tair blynedd newydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd-orllewin Lloegr o'r enw Cherish. Mae ganddynt gyllid ar gyfer grantiau, yn enwedig ar gyfer gwaith bach, cynnal a chadw ac ati. Y wefan yw https://www.nationalchurchestrust.org/cherish

Cytunodd Eddie ag Owen hefyd fod llawer mwy o arian ar gael yn Lloegr ar gyfer cynnal a chadw a gofalu am addoldai. Gellir defnyddio adeiladau eglwysig at amrywiaeth o ddibenion megis plannu eglwysi, defnydd cymunedol (e.e. swyddfeydd post, banciau bwyd, mannau cynnes) a threftadaeth.

Gofynnodd CM am eglurhad gan Eddie ynghylch a oedd prosiect Cherish yn ariannu adeiladau segur. Ymatebodd Eddie, gan ddweud bod y llinellau'n aneglur ac, yn yr Alban, bod eglwysi a allai fod yn cael eu defnyddio rywfaint ar gyfer addoli o hyd, neu ddim o gwbl, yn cael eu meddiannu gan grwpiau cymunedol. Mae'n sefyllfa sy'n esblygu a fydd yn debyg yng Nghymru, gan fod angen adeiladau sydd ar agor ar gyfer addoli a rhai sydd ddim.

5. Camau i'w cymryd

Cytunodd y grŵp ar y camau canlynol:

Ysgrifennu at Dawn Bowden, Gweinidog Llywodraeth Cymru y mae ei chyfrifoldebau'n cynnwys treftadaeth, er mwyn:

- Ceisio buddsoddiad pellach er mwyn gwarchod adeiladau crefyddol sy'n wynebu risg
- Gofyn a allwn ymwneud mwy â gwaith y Comisiwn Brenhinol, a chael rhywfaint o ymgysylltiad mwy ffurfiol naill ai fel Grŵp Trawsbleidiol neu fel aelodau unigol o wahanol enwadau a sefydliadau crefyddol
- Gofyn am adnoddau ar gyfer y cwricwlwm i Gymru er mwyn helpu i addysgu pobl am eu treftadaeth adeiledig leol
- Gofyn sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r gwaith academaidd a gyhoeddwyd yn 2020, *Race, Faith and Planning in Britain,* yn enwedig o ran y canlyniad i sefydlu cofrestr.

6. Daeth Darren â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am gymryd rhan ac i Christine a Nathan am eu cyflwyniadau.